I'w gyhoeddi ar unwaith (12 Rhagfyr)

PROSIECT GWYRDD
PRESS RELEASE/ **DATGANIAD I'R WASG**

TROI PROBLEM YN ADNODD

Viridor a Veolia yn cystadlu am gontract Prosiect Gwyrdd

Mae Prosiect Gwyrdd yn falch o gadarnhau y bydd Viridor a Veolia yn cael eu gwahodd i gyflwyno Tendr Terfynol ar gyfer contract gwastraff Prosiect Gwyrdd.

Roedd y Prosiect i fod i ddad-ddethol un cwmni yn ystod y cam hwn o'r broses gaffael, gan symud o dri chwmni i ddau, ond tynnodd Covanta Energy Ltd yn ôl o'r broses gaffael ddiwedd Hydref, ddau fis cyn penderfynu ar y rhestr fer.

Dywedodd y Cyngh Mark Stephens, Cadeirydd y Cydbwyllgor sy'n rheoli'r Prosiect: "Mae'r ddau gais, sydd wedi bodloni gofynion hanfodol y gwerthusiad, yn gryf ac yn gredadwy. Mae'r broses yn gystadleuol dros ben ac wedi'i chynllunio i ddarparu datrysiad cynaliadwy i'r gwastraff sy'n weddill, ar ôl i 'ailgylchu cyn prosesu' a chompostio sylweddol gael ei wneud drwy gynlluniau awdurdod lleol.

Aeth ymlaen: 'Mae awdurdodau lleol yn gwneud buddsoddiad sylweddol mewn casgliadau ailgylchu a chompostio ac yn addysgu sut i leihau ac ailgylchu gwastraff. Mae'n bwysig iawn bod y cyhoedd yn defnyddio'r cyfleusterau ailgylchu a chompostio a ddarperir, fel y gellir cyfeirio'r gwahanol fathau o wastraff i'w hailddefnyddio wrth ymyl y ffordd. Mae partneriaethau awdurdodau lleol hefyd yn cynnal proses gaffael ar wahân ar gyfer gwastraff organig, gyda gwastraff bwyd a gardd yn cael ei gyfeirio ar wahân i'w drin, drwy naill ai gompostio caeëdig neu Dreulio Anaerobig.

Mae'r neges gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Genedlaethol yn glir, tirlenwi ydy'r dewis olaf. Mae pob un o'r partneriaid wedi ymrwymo i gyflawni'r targedau ailgylchu a chompostio rhwymol gyfreithiol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

'O ran y gwastraff na ellir ei ailgylchu na'i gompostio'n ymarferol, mae'r farchnad wedi cyflwyno systemau troi gwastraff yn ynni sy'n hynod effeithlon a modern. Mae'r cyfleusterau hyn yn gynaliadwy, yn cael eu rheoli'n llym ac yn gyffredin mewn llawer o ardaloedd yn Ewrop a Sgandinafia ac yn defnyddio technoleg ddibynadwy sydd wedi hen ennill ei phlwyf. '

Yn dilyn cytundeb y Cydbwyllgor, bydd y Prosiect bellach yn anfon y Cais am Ddogfennau Tendr Terfynol i'r ddau gwmni ac yn cynnal rhagor o drafodaethau yn y Flwyddyn Newydd. Disgwylir y bydd enw'r Cynigydd a Ffefrir ar gyfer y Prosiect yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2012.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff ac mae'n cefnogi partneriaethau gwastraff gweddilliol awdurdodau lleol yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi'r partneriaethau hyn, fel y caiff ateb cynaliadwy ei sicrhau i wastraff na ellir ei ailgylchu na'i gompostio mewn modd hyfyw.

Nodiadau i olygyddion.

Caffael, cyllid a llifoedd gwastraff

- Mae cyfweliadau i'w darlledu ar gael. I ymgeisio am gyfweliad, cysylltwch â'r rhif isod.
- Mae'r Cydbwyllgor wedi cymeradwyo'r Project i gyhoeddi dogfennaeth Gwahoddiad i Gyflwyno Tendrau Terfynol ar 12 Rhagfyr a hysbysu'r Cyfranogwyr a'r cyhoedd ar 12 Rhagfyr.

Cynhelir digwyddiadau cyhoeddus ym mhob un o'r 5 awdurdod yn y bartneriaeth yn Ionawr/Chwefror 2012.

1. dydd Sadwrn, 07 Ionawr - Sioe Deithiol yn Neuadd y Plwyf Eglwys Sant Augustine, Penarth - 10am tan 1.30pm
2. dydd Sadwrn 14 Ionawr – Sioe Deithiol yn Yr Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd – 10am tan 2pm
3. dydd Sadwrn 21 Ionawr – Sioe Deithiol yn Neuadd y Pentref, Llanwern – 10am tan 2pm
4. dydd Sadwrn 28 Ionawr - Sioe Deithiol yng Nghanolfan Hamdden Cil-y-coed – 10am tan 2pm
5. dydd Sadwrn 04 Chwefror – Llyfrgell Palas Rhisga – 10am tan 2pm

- Cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Achos Busnes Amlinellol ac yn dilyn cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol bydd yn cyfrannu 25% tuag at ffioedd defnyddio'r cyfleuster.

- Bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer Prosiect Gwyrdd hyd at £9.124m yn ystod blwyddyn gyflawn o weithredu yn dibynnu ar gymeradwyo'r achos busnes terfynol ar gyfer y project. Mae lefel y grant a ddyfernir ar gyfer Prosiect Gwyrdd yn seiliedig ar ragamcaniad o amcangyfrif y gost o ddarparu'r cyfleuster a bydd yn amrywio yn unol â'r costau gwirioneddol pan gymeradwyir yr achos Busnes Terfynol. Mae'n rhaid cadw'r cyfrifiad gwirioneddol yn fasnachol gyfrinachol gan y bydd y prosiect yn unol â phroses dendro fasnachol. Cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Achos Busnes Amlinellol ac yn dilyn cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol bydd yn cyfrannu 25% tuag at ffioedd defnyddio'r cyfleuster.

- Mae 'Deilliannau Gwastraff' sy'n creu 'gwastraff gweddilliol' wedi'u dadansoddi yn 2003, Mehefin 2009 a Thachwedd 2009 gan AEA Technology. Defnyddiwyd ymchwil 2003 i greu data Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Caerdydd, Sir Fynwy a Bro Morgannwg. Roedd data penodol ar gael ar gyfer Caerffili a Chasnewydd. Comisiynwyd AEA technology gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwaith ymchwil pellach ym Mehefin 2009 a Thachwedd 2009. Caiff y gwaith ymchwil newydd hwn ei werthuso i lywio'r broses gaffael a chyfranogwyr o ran swm a chyfansoddiad y 'gwastraff gweddilliol'. Mae rhagamcanu'r tunelli gwastraff cywir yn ystod tymor y contract yn hanfodol i lwyddiant y Prosiect a bydd yn parhau i gael ei adolygu hyd nes y cytunir ar Isafswm Tâl Gwarantedig gyda'r Cynigydd a Ffefrir ar ddiwedd y broses gaffael.

Ailgylchu a chompostio

- Mae'r targedau gwastraff canlynol wedi cael eu pennu mewn cyfraith gan Lywodraeth Cymru.

  2009/10 - 40% cyfuniad o ailgylchu a chompostio
  2012/13 - 52% cyfuniad o ailgylchu a chompostio
  2015/16 - 58% cyfuniad o ailgylchu a chompostio
  2019/20 - 64% cyfuniad o ailgylchu a chompostio
  2019/20 – uchafswm o 10% i'w waredu drwy dirlenwi
  2024/25 – Lleiafswm o 70% o gyfuniad o ailgylchu a chompostio
  2024/25 – Uchafswm o 5% i'w waredu drwy dirlenwi.

- Y cyfraddau ailgylchu a chompostio cyfunol ar gyfer y 5 awdurdod partner o Ebrill/Mehefin 2011 (dros dro) yw:

  Caerffili: 57.1
  Caerdydd: 45.7
  Sir Fynwy: 54.8
  Casnewydd: 47.6

. Bro Morgannwg: 49.5

Ymgynghori â rhanddeiliaid

- Cynhaliwyd diwrnodau ac arolygon ar gyfer rhanddeiliaid rhwng Medi a Rhagfyr 2009 er mwyn cynnwys y rhanddeiliaid allweddol yn y broses o sefydlu'r Meini Prawf Gwerthuso. Trafodwyd ac aseswyd materion penodol yn ceisio safbwyntiau ar flaenoriaethau agweddau technegol, cymdeithasol, ariannol a chyfreithiol y Meini Prawf Gwerthuso. Gan ddefnyddio'r data hwn dyfeisiwyd ac anfonwyd arolwg yn y post i 25 000 o eiddo ym mhob ardal awdurdod lleol yn y bartneriaeth. Yn dilyn hyn cyflwynwyd y data i'r Cydbwyllgor i'w ystyried wrth gytuno ar y dull gwerthuso.

Rheoleiddio ac ymchwil i effeithiau iechyd Llosgyddion Gwastraff Dinesig

- Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n rheoleiddio'r holl gyfleusterau ynni o wastraff, a gellir lawrlwytho gwybodaeth am y broses reoleiddio oddi ar ei gwefan, www.environmentagency.co.uk

- Mae'n rhaid i'r holl brosesau gwastraff sy'n cynnwys llosgi gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb ar Losgi Gwastraff. Mae'r ddeddf hon yn gosod rheoliadau caeth ar allyriadau o bob math o dechnolegau ynni o wastraff, gan gynnwys Pyrolysis, Nwyeiddio ac Ynni o Wastraff gyda Gwres ac Ynni Cyfunol (Llosgi). Rhaid cael y technolegau hyn i fonitro allyriadau i sicrhau eu bod o leiaf yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau yng Nghyfarwyddeb Llosgi Gwastraff yr Undeb Ewropeaidd (2000/76/EC) sy'n nodi rheoliadau gollyngiadau llym ar lygryddion. Mae'r Gyfarwyddeb wedi'i rhoi ar waith yng Nghymru a Lloegr gan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007. O Ebrill 2008 roedd y rhain yn disodli Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000. Gellir gweld canllawiau ar y ddeddfwriaeth hon trwy ddilyn y ddolen ganlynol: http://www.defra.gov.uk/environment/quality/industrial/eu-international/wid/

- Cyhoeddodd Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd ddau adroddiad ym mis Medi 2009 a mis Chwefror 2010 a oedd yn mynd i'r afael ag effeithiau iechyd llosgi gwastraff dinesig. Gellir gweld yr adroddiadau drwy ddilyn y ddolen ganlynol: http://www.caerphilly.gov.uk/prosiectgwyrdd/pdfs/RCE-13%20for%20web%20with%20security.pdf

- Mae'r effeithiau cymharol ar iechyd gyda gwahanol ddulliau o waredu gwastraff wedi'u hystyried yn fanwl mewn adroddiad a luniwyd ar gyfer Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra 2004). Gellir gweld crynodeb o'r ymchwil helaeth hon trwy ddilyn y ddolen ganlynol: http://archive.defra.gov.uk/environment/waste/statistics/documents/health-report.pdf

- Roedd y gwaith ymchwil hwn, *'The Review of the Environmental and Health Effects of Waste Management Municipal Solid Waste and Similar Wastes'*, yn ystyried 23 astudiaeth o safon uchel ar batrymau afiechydon o amgylch safleoedd Ynni o Wastraff a phedwar papur yn edrych ar effeithiau iechyd gwaith safleoedd Ynni o Wastraff. Daeth i'r casgliad nad oes cyswllt sy'n argyhoeddi rhwng gwaith Ynni o Wastraff ac effeithiau negyddol ar iechyd.

(Diwedd)

Paratowyd gan Prosiect Gwyrdd
E-bost: info@prosiectgwyrdd.co.uk
Ffôn: 02920 717566